

Cynhadledd Cymru'r Gyfraith – 2018

Cynhaliwyd cynhadledd eleni ym Mhrifysgol Aberystwyth ar y 12fed o Hydref 2018. Aberystwyth ydy cartref Ysgol y Gyfraith hynaf yng Nghymru, a digwydd y gynhadledd ar Ddiwrnod y Sylfaenwyr, lle bu'r Brifysgol yn dathlu 146 mlynedd ers sefydlu Coleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth.

Roedd 130 yn bresennol yn y gynhadledd, ac roedd rhaglen hynod o siaradwyr yn trafod amryw o bynciau sy'n berthnasol i Gymru.

Y noson blaenorol, cynhaliwyd ddigwyddiad yn y Llyfrgell Genedlaethol, "Trysorau Cyfreithiol Cymru". Cafwyd y cyfle i edrych ar lawysgrifau cyfreithiol o bwys i'r Gyfraith Gymreig, a gwranddo ar Dr Sara Elin Roberts o Brifysgol Caer a Iwan Bryn James o'r Llyfrgell Genedlaethol yn trafod cadwraeth y llawysgrifau sydd ar ddangos. Defnyddiodd y ddau "Lawysgrif Boston" fel enghraifft oedd o bwys i'r sawl oedd yn bresennol, gan i gyfreithau Hywel Dda gael ei gofnodi ynddo, ceir yma destun a ddefnyddiwyd gan Farnwyr Teithiol y bedwaredd ganrif ar ddeg tra'n teithio o amgylch cylchdaith Cymru.

Agorwyd y gynhadledd gan Gadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd, Yr Athro John Williams. Croesawodd Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Tomos o Gwmgiedd y gynulleidfa i Brifysgol Aberystwyth yn rhinwedd ei rôl fel Canghellor. Cafwyd croeso hefyd gan Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CF, ar ei gynhadledd olaf, wedi iddo gadeirio Cymru'r Gyfraith am 8 mlynedd, gwnaeth ddiolchiadau i bwyllgor y Gynhadledd, yn enwedig yr Athro John Williams, Keith Bush CF, Lowri Morgan a Huw Williams am gydlynu rhaglen amrywiol a diddorol ar gyfer y Gynhadledd unwaith yn rhagor.

Yr Arglwydd Thomas annerchodd gyntaf, gan drafod gwaith "Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru". Dywedodd bod 150 o argymhellion wedi dod i law hyd yn hyn. Mae'r comisiwn wedi bod yn teithio o amgylch Cymru i gasglu gwybodaeth ar faterion megis anhawsterau wrth geisio cael mynediad at gyfiawnder, diffyg Cymorth Cyfreithiol, cau llysoedd a'r angen am ganolfan ddigidol yng Nghymru. Cam nesaf y comisiwn bydd i glywed tystiolaeth lafar ar destunau megis llywodraethu, cyfiawnder droseddol, cyfiawnder sifil a datblygiad y proffesiwn ac addysg gyfreithiol yma yng Nghymru. Gorffennodd Yr Arglwydd Thomas trwy gyhoeddi bod y Comisiwn yn ymgynghori bod yna angen Cyngor Cyfraith i Gymru fel fforwm i uno hapddalwyr o bob maes gwahanol, er mwyn gallu gwneud awgrymiadau pellach ar sefyllfa y gyfraith, addysg gyfreithiol a gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru.

Y Cwnsler Cyffredinol dros Gymru, Jeremy Miles AC siaradodd nesaf, am "Y Gyfraith yng Nghymru; Mynediad ac Atebolrwydd". Atgoffodd y gynulleidfa bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dod yn bell ers y ddeddf i'w sefydlu yn 1998 ac er bod Deddf Cymru 2017 yn parhau i gyfyngu ar bwerau'r Cynulliad, pery'r gyfraith i wahanu fwy-fwy o gyfraith Lloegr. Eglurodd bod y Llywodraeth wedi bod yn edrych ar hyn, ac wedi ymgynghori ar Fil Deddfu (Cymru) a fuasai'n creu dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i hybu atgyfnerthiad a chodeiddio y ddeddfwriaeth hynny sy'n gymwys yng Nghymru.

Siaradodd Simon Davies, Dirprwy Lywydd Cymdeithas y Gyfraith am rôl Cymdeithas y Gyfraith a'r heriau sy'n wynebu'r proffesiwn. Mynodd y dylai Cymorth Cyfreithiol Cyngor Cynnar gael ei adfywio, yn enwedig o fewn materion teulu a llety.

Yna, croesawyd Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Carloway, Arglwydd Lywydd Llys Sesiwn yr Alban, a phennaeth barnwriaeth yr Alban. Siaradodd Yr Arglwydd Carloway am yr effaith a gafodd sefydlu Senedd yr Alban ar gyfraith yr Alban. Nododd er bod sefydlu'r Senedd wedi galluogi llawer o welliannau angenrheidiol, mae'r gwahaniad pwerau wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd, ac mae hyn wedi achosi anghytuno.

Trwy gydol y dydd, roedd sesiynau bychain ar ystod eang o bynciau amrwyiol gan gynnwys Cyfraith Tai yng Nghymru, Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru, Rheolaeth Orfodol – Polisi ac Ymarferiad, Cyfarwydddeb Dosraniad Yswyriant (a gyflwynir gan Gymdeithas Cyfraith Masnachol Cymru), Mynediad at Gyfiawnder i ddiodefwyr o drais tuag at yr henoed, Tystiolaeth Arbennigol – y dull Americanaidd, Masnach Traws-Ffiniau a llysoedd Troseddol a Chymunedol Cymru yn yr oes Fictorianaidd (a drefnwyd gan Gymdeithas Hanes Cymru).

Cynhelir un sesiwn a oedd yn trafod gwaith diweddar y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (a drefnir gan Gyfraith Cyhoeddus Cymru) gan bedwar o'r comisiynwyr, Yr Athro Rick Rawlings (UCL), Nerys Llewelyn Jones, Juliet Lyon CBE a Syr Wyn Williams. Cafwyd drafodaeth fywiog gan draws-doriad o'r sawl a oedd yn bresennol yn cyfrannu at drafodaeth ynglyn â amodau gorchwyl y comisiwn.

Roedd gan y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder stondin yn y gynhadledd, a cafwyd gyflwyniad gan Clare Carter, Dirprwy CEO y Sefydliad, a Frances Edwards, un o ymddiriedolwyr y sefydliad, ar y gwaith a wnaethpwyd gan Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a Chyrraedd Cyfiawnder Cymru.

Traddododd Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Burnett o Maldon, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr araith olaf y Gynhadledd. Estynnodd ei ddiolch i'r Arglwydd Thomas am yr holl waith y gwnaeth ac y perai i wneud yng Nghymru. Trafododd lwyddiant apwyntio Syr Wyn Williams fel Llywydd Cyntaf y Tribiwnlysoedd Cymreig, a'r gwaith a wnaed trwy leoli Barnwyr mewn amryw dribiwnlys er mwyn ehangu profiad a sgil. Cytunodd â sylwadau y Cwnsler Cyffredinol gan nodi bod yna ddyletswydd i hybu hygyrchedd Cyfraith Gymreig. Dywedodd bod Barnwyr yn awyddus i glywed achosion Cymraeg yng Nghymru, a cefnogodd ddefnydd yr iaith Gymraeg o fewn y llysoedd. Estynnodd ei longyfarchiadau i'r Arglwyddes Ustus Nicola Davies, y Gymraes gyntaf i gael ei hapwyntio fel barnwr yn Llys yr Apél, a nododd ei bod hi wedi, y diwrnod blaenorol, tyngu ei llw trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg. Caeodd yr Arglwydd Burnett ei sgwrs trwy bwysleisio yr angen am foderneiddio ac i lawn-ddefnyddio Technoleg (megis Ysgariad ar-lein a Grant Profiant) i wella mynediad at gyfiawnder, yn ogystal â gwella cyflwr y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd.

Daeth y gynhadledd i ben gyda diolchiadau gan Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor y Brifysgol. Estynnodd ei diolch i aelodau'r pwyllgor a oedd yn ymddeol, y Cadeirydd Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman, yr Ysgrifennydd Dylan Lloyd Jones, a'r Trysorydd Lowri Morgan am eu blynyddoedd o wasanaeth a croesawodd y pwyllgor newydd, sef y Cadeirydd Huw Williams, yr Ysgrifennydd Frances Edwards, a'r Trysorydd Keith Bush QC.

Cyflwynodd Winston Roddick CB CF anrhegion i'r sawl a oedd yn ymddeol ar ran Cymru'r Gyfraith.

Mae'r prif areithiau gan Jeremy Miles, yr Arglwydd Carloway a'r Arglwydd Burnett bellach ar gael ar wefan Cymru'r Gyfraith.

Hoffai Cymru'r Gyfraith estyn eu diolch i'r canlynol am ei nawdd caredig :

30 Park Place

Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer

Prifysgol Aberystwyth.